

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWYD AR NOS LUN 26AIN O CHWEFOR 2018 YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Bari Evans (Cadeirydd), Philip Williams, Elfed Williams, Geraint Jones, Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorwyr Iwan Jones, Hywel Davies, Iona Edwards-Jones, Stan Williams, Jill Evans a Falmai Evans.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Cynghorydd Philip Williams are item 8A.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 29ain o Ionawr 2018 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

A. Mae Cydlynnydd Gwasanaeth Stryd Ardal Dinbych Cyngor Sir Ddinbych methu cael hyd i'r groesffordd Nant-y-Ci yn Saron i ail sefydlu'r arwydd y groesffordd. Cytunodd y Cynghorydd Philip Williams gyrru map o'r groesffordd i'r Swyddog y Cyngor Sir.

B. Mae'r Clerc yn dal i ddisgwyl am adroddiad Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych a Chyfoeth Naturiol Cymru i'r materion diweddar a chodwyd.

C. Derbyniwyd cadarnhad oddi wrth y Cynghorydd Sir Ddinbych Huw Hilditch-Roberts fod y maes parcio Ysgol Pant Pastynog yn rhan o'r briffordd ac mae'r tir yr Ysgol mewn perchnogaeth Esgobaeth Llanelwy.

D. Derbyniwyd ymateb oddi wrth Alwen Williams, Cyfarwyddwraig Cymru BT, fod problem y Band Eang yn dan reolaeth "Openreach" ac mi fydd rhaid i'r trigolion lleol gysylltu gyda "Openreach" hefo'r rhifau ffôn sydd hefo'r broblem. Penderfynwyd y Clerc gysylltu gyda'r Swyddog yn gofyn am fwy o gymorth.

E. Derbyniwyd adroddiad Swyddog Cynllunio Cyngor sir Ddinbych ei fod wedi ystyried colli defnydd tir amaethyddol yn Bella, Saron cyn rhoi caniatâd i'r cais cynllunio i newid defnydd y tir a phenderfynwyd y Swyddog fod safon y tir amaethyddol yng ngradd 4 ac nid oedd hyn yn colli tir amaethyddol da.

F. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw'r Cadeirydd ceisiadau cynllunio ym misoedd Awst a Rhagfyr er mwyn rhoi sylwadau'r Cyngor Cymuned o fewn y mis.

5. WEFAN Y CYNGOR.

Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn gweithio a'r Wefan y Cyngor.

6. EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Mae'r Cynghorwyr yn wrthi'n trafod cydweithio'r targed lleol apêl Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 gydag Ysgolion Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr a Phant Pastynog, Prion.

7. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £16,515.00.

B. Taliadau:-

1. Capel-Y-Pentre, Llanrhaeadr am gyfarfod cais cynllunio Bryn Morfydd ar 1af Chwefror 2018 yn Festri'r Capel - £20.00.

2. Aelodaeth Un Llais Cymru 2018/19 - £139.00.

3. Rhodd i'r apêl leol Eisteddfod yr Urdd 2020 - £1,000.00.

8. CEISIADAU AM GEFNOGAETH ARIAN.

- A. Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr-yng-nghinmeirch tuag at gynnal mynwentydd Iago Sant, Pant Pastynog a Dyfnog Sant - £400.00.
- B. Cymdeithas Maes-y-Plwm - £250.00.
- C. Cart-y-Plwyf - £500.00.
- D. Mabolgampau Pastynog a'r Cylch - £150.00.

9. CEISIADAU CYNLLUNIO.

- A. Amrywio amod rhif 1 o rif cod caniatâd cynllunio 23/2015/0961 i ganiatáu diwygiadau i'r dyluniad yn Fron Ystrad, Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad.
- B. Trosi Ysgubor a'r Hendy i ffurfio 2 bythynnod gwyliau a gosod tanc septig newydd ar adeiladau yn Bwlch, Prion - dim gwrthwynebiad mewn egwyddor, ond i ofyn a oes yna amod nad oes hawl byw yn yr Hendy yn y cais cynllunio canlynol.

10. SGIPIADAU CYMUNEDOL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gwneud ymholiad gyda Chwmni CAD Recycling am bris dau sgip yn ystod gwyniau hanner tymor diwedd mis Mai 2018.

11. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

12. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Joe Welch ynglŷn ar ganlynol:-

- A: Mae'r £150,000.00 wedi ei glustnodi ar gyfer yr estyniad i Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr i'w adeiladu yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.
- B. Mi fydd gwaith cyfalaf yn cael eu gwneud ar yr hen ffordd Rhuthun/Dinbych yn llan Llanrhaeadr a'r rhan o'r ffordd Ystrad i Brion yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19.

13. UNRHYW FATER ARALL.

Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

- A: Ochr y ffordd eisiau eu glanhau o lan Llanrhaeadr tuag at Y Glyn.
- B. Glanhau'r llwybr troed o Bentre' Llanrhaeadr tuag at Gurig, Llanrhaeadr.
- C. Dwr yn casglu wrth stad Gernant yn Llanrhaeadr.

14. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 26ain o Fawrth 2018 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.